# <u>Dogfennau Derbyniol yn Dangos yr Hawl i Weithio</u>

Mae'r rhestr hon yn nodi'r dogfennau derbyniol y gallwch eu darparu i ddangos prawf bod gennych hawl barhaus neu gyfyngedig i weithio yn y DU. Mae angen i chi ddod â'r dogfennau **<u>gwreiddiol</u>** gyda chi i'r cyfweliad.

| RHESTR A | |
|---|---|
| Dogfennau derbyniol i sefydlu esgus statudol parhaus | |
| 1. | **Pasbort** (cyfredol neu wedi dod i ben) yn dangos bod y deiliad yn **ddinesydd Prydain** neu'n ddinesydd y DU a'r Trefedigaethau a chanddo hawl preswylio yn y DU. |
| 2. | **Pasbort neu gerdyn pasbort** (yn y naill achos neu'r llall, boed yn gyfredol neu'n dod i ben) yn dangos bod y deiliad yn **ddinesydd Iwerddon.** |
| 3. | Dogfen a gyhoeddwyd gan Feilïaeth Jersey, Beilïaeth Guernsey neu Ynys Manaw, sydd wedi'i gwirio fel un ddilys gan Wasanaeth Gwirio Cyflogwyr y Swyddfa Gartref, sy'n dangos bod y deiliad wedi cael caniatâd diderfyn i ddod i mewn neu aros o dan Atodiad UE (J) i Reolau Mewnfudo Jersey, Atodiad UE i Reolau Mewnfudo (Beilïaeth Guernsey) 2008 neu Atodiad UE i Reolau Mewnfudo Ynys Manaw. |
| 4. | **Pasbort cyfredol** wedi'i ardystio i ddangos bod y deiliad yn cael ei eithrio rhag rheolaeth mewnfudo, â'r hawl i aros am gyfnod amhenodol yn y DU, a chanddo hawl preswylio yn y DU, neu nad oes terfyn amser ar y cyfnod o amser mae'n cael aros yn y DU. |
| 5. | **Dogfen Statws Mewnfudo** gyfredol a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref i'r deiliad a ardystiwyd i ddangos bod hawl gan yr unigolyn a enwyd i aros am gyfnod amhenodol yn y DU neu nad oes terfyn amser ar eu harhosiad yn y DU, **ynghyd â** dogfen swyddogol yn rhoi **Rhif Yswiriant Gwladol** parhaol yr unigolyn a'u **henw** a gyhoeddwyd gan asiantaeth o'r llywodraeth neu gyflogwr blaenorol. |
| 6. | **Tystysgrif geni neu fabwysiadu** a gyhoeddwyd yn DU, **ynghyd â** dogfen swyddogol yn rhoi **Rhif Yswiriant Gwladol** parhaol yr unigolyn a'u **henw** a gyhoeddwyd gan asiantaeth o'r llywodraeth neu gyflogwr blaenorol. |
| 7. | **Tystysgrif geni neu fabwysiadu** a gyhoeddwyd yn Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw neu Iwerddon, **ynghyd â** dogfen swyddogol yn rhoi **Rhif Yswiriant Gwladol parhaol** yr unigolyn a'u **henw** a gyhoeddwyd gan asiantaeth o'r llywodraeth neu gyflogwr blaenorol. |
| 8. | **Tystysgrif cofrestru neu ddinasyddio** yn ddinesydd Prydeinig, **ynghyd â** dogfen swyddogol yn rhoi **Rhif Yswiriant Gwladol parhaol yr unigolyn** a'u **henw** a gyhoeddwyd gan asiantaeth o'r llywodraeth neu gyflogwr blaenorol. |

| Rhestr B: Grŵp 1 | |
|---|---|
| **Dogfennau lle mae esgus statudol amser cyfyngedig yn para tan ddyddiad dod i ben y caniatâd i ddod i mewn neu'r caniatâd i aros** | |
| 1. | **Pasbort cyfredol** wedi'i ardystio i ddangos bod hawl gan y deiliad i aros yn y DU a'i fod ar hyn o bryd yn cael cyflawni'r math o waith dan sylw. |

| | |
|---|---|
| 2. | Dogfen a gyhoeddwyd gan Feilïaeth Jersey, Beilïaeth Guernsey neu Ynys Manaw, sydd wedi'i gwirio fel un ddilys gan Wasanaeth Gwirio Cyflogwyr y Swyddfa Gartref, sy'n dangos bod y deiliad wedi cael caniatâd diderfyn i ddod i mewn neu aros o dan Atodiad UE (J) i Reolau Mewnfudo Jersey, Atodiad UE i Reolau Mewnfudo (Beilïaeth Guernsey) 2008 neu Atodiad UE i Reolau Mewnfudo Ynys Manaw. |
| 3. | **Dogfen Statws Mewnfudo gyfredol** yn cynnwys ffotograff a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref i'r deiliad ynghyd ag ardystiad dilys yn dangos bod hawl gan yr unigolyn a enwyd i aros yn y DU, a bod hawl ganddo i wneud y math o waith dan sylw, ynghyd â dogfen swyddogol yn rhoi rhif Yswiriant Gwladol parhaol yr unigolyn a'u henw a gyhoeddwyd gan asiantaeth o'r llywodraeth neu gyflogwr blaenorol. |

| Rhestr B: Grŵp 2 | |
|---|---|
| Dogfennau lle mae esgus statudol amser cyfyngedig yn para am 6 mis | |
| 1. | Dogfen a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref yn dangos bod y deiliad wedi gwneud cais am ganiatâd i ddod i mewn neu aros o dan Atodiad UE i'r rheolau mewnfudo (a elwir yn y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE), ar neu cyn 30 Mehefin 2021, ynghyd â Hysbysiad Gwirio Cadarnhaol gan Wasanaeth Gwirio Cyflogwyr y Swyddfa Gartref. |
| 2. | **Tystysgrif Cais** (digidol neu heb fod yn ddigidol) a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref yn dangos bod y deiliad wedi gwneud cais am ganiatâd i ddod i mewn neu aros o dan Atodiad UE i'r rheolau mewnfudo (a elwir yn y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE), ar neu ar ôl 1 Gorffennaf 2021, ynghyd â Hysbysiad Gwirio Cadarnhaol gan Wasanaeth Gwirio Cyflogwyr y Swyddfa Gartref. |
| 3. | Dogfen a gyhoeddwyd gan Feilïaeth Jersey, Beilïaeth Guernsey neu Ynys Manaw yn dangos bod y deiliad wedi gwneud cais am ganiatâd i ddod i mewn neu aros o dan Atodiad UE(J) i Reolau Mewnfudo Jersey neu Atodiad UE i Reolau Mewnfudo (Beilïaeth Guernsey) 2008, neu Atodiad UE i Reolau Mewnfudo Ynys Manaw ynghyd â Hysbysiad Gwirio Cadarnhaol gan Wasanaeth Gwirio Cyflogwyr y Swyddfa Gartref. |
| 4. | Cerdyn Cofrestru Cais a ddosbarthwyd gan y Swyddfa Gartref yn nodi bod hawl gan y deiliad i gymryd y gyflogaeth dan sylw, **ynghyd â Hysbysiad Gwirio Cadarnhaol** gan Wasanaeth Gwirio Cyflogwyr y Swyddfa Gartref. |
| 5. | **Hysbysiad Gwirio Cadarnhaol** a gyhoeddwyd gan Wasanaeth Gwirio Cyflogwyr y Swyddfa Gartref i'r cyflogwr neu'r darpar gyflogwr, sy'n nodi bod yr unigolyn a enwyd yn cael aros yn y DU a bod hawl ganddo i wneud y gwaith dan sylw. |